Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Ebrill 2025

# 1. Y cefndir

## Bil Data (Defnydd a Mynediad) Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad)[1] (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf, ar 23 Hydref 2024. Mae'n cael ei noddi gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan fel a ganlyn:

> *"This Bill is intended to harness the power of data for economic growth, support a modern digital government, and improve people's lives."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"… to make provision about access to customer data and business data; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about the recording and sharing, and keeping of registers, of information relating to apparatus in streets; to make provision about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about privacy and electronic communications; to establish the Information Commission; to make provision about information standards for health and social care; to make provision about the grant of smart meter communication licences; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision about the retention of information by providers of internet services in connection with investigations into child deaths; to make provision about providing information for purposes related to the carrying out of independent research into online safety matters; to make provision about the retention of biometric data; to make provision about services for the provision of electronic*

[1] Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'u cyflwynwyd [Saesneg yn unig]

*signatures, electronic seals and other trust services; and for connected purposes."*[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 5 Chwefror 2025, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Chwefror 2025. Daeth y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 4 Mawrth 2025. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd na'r trydydd darlleniad wedi'u cadarnhau, eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo un o Filiau perthnasol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 2 Ionawr 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.[4]

**7.** Clywsom dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y Memorandwm ar 3 Chwefror 2025.[5]

**8.** Gwnaethom adrodd ar y Memorandwm ar 7 Mawrth 2025 (ein hadroddiad cyntaf).[6]

**9.** Mae paragraffau 14 i 16 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi darpariaethau'r Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd arnynt.

**10.** Mae paragraffau 17 i 27 o'n hadroddiad cyntaf yn disgrifio'r pwerau dirprwyedig yn y Bil a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol, y Trysorlys, a Gweinidogion Cymru i weithredu mewn meysydd datganoledig.

**11.** Mae paragraffau 28 i 32 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y nodir yn y Memorandwm.

**12.** Mae paragraffau 33 i 75 o'n hadroddiad cyntaf yn tynnu sylw at y dystiolaeth a gawsom gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y Memorandwm.

---

[3] Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ionawr 2025
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 3 Chwefror 2025
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Mawrth 2025

**13.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys saith casgliad a chwe argymhelliad.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**14.** Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil ar 12 Mawrth 2025.[7]

**15.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil ar gyfer cyfnod pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a ddechreuodd ar 4 Mawrth 2025.

**16.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau a ganlyn gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 2 Mai 2025[8]:

- y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol;
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig;
- y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith;
- y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a hefyd
- y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor).

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, a darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**17.** Barn Llywodraeth Cymru a nodir yn y Memorandwm (a osodwyd ym mis Ionawr 2025) oedd bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 13 ac 18 i 26 (yn Rhan 1 – Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau), cymalau 45, 47 a 49 (yn Rhan 2 – Gwasanaethau Dilysu Digidol - Porth Gwybodaeth), cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1 (yn Rhan 3 – Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR)), a chymal 121 (yn Rhan 7 – Gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well).

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Mawrth 2025
[8] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Mawrth 2025

**18.** Ym mharagraffau 7 i 15 o Femorandwm Rhif 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm.

**19.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau bod swyddogion o lywodraethau Cymru a'r DU wedi parhau i gael cyswllt rheolaidd ar y Bil, gan gynnwys rhannau penodol sy'n ymwneud â Chael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, Gwasanaethau Dilysu Digidol a'r NUAR.[9]

**20.** Ym mharagraff 8 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan fel a ganlyn:

> *"Aseswyd y gwelliannau canlynol, a gyflwynwyd ar 26 Chwefror, gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd:*
>
> *- Gwelliannau 1, 2, 3 a 5, sy'n diwygio Rhan 1, cymal 8 – Gorfodi Rheoliadau*
>
> *- Gwelliant 6, sy'n diwygio Rhan 1, cymal 10 - Cosbau ariannol."*

**21.** Mae'r diwygiadau'n ymestyn cwmpas pwy all osod amodau ar gyfer awdurdodiad neu gymeradwyaeth i dderbyn data cwsmeriaid neu ddata busnes y tu hwnt i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â chyhoeddi neu gyflwyno dogfennau, ac yn ychwanegu darpariaeth ychwanegol sy'n rhoi pŵer datganedig i wneud darpariaeth ynghylch trin cosbau a delir i orfodwyr (er mwyn bod yn gyson â phwerau tebyg yng nghymalau 11(1)(b) a 12(1)(b)).[10]

**22.** Ym mharagraffau 12 a 15 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan fel a ganlyn:

> *"Nodwyd yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 1 o'r Bil, gan gynnwys cymal 8, yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr. Wrth i welliannau 1, 2, 3 a 5 ddiwygio cymal 8 drwy ymestyn cwmpas rheoliadau gorfodi, mae angen LCM Atodol ar gyfer y gwelliannau hyn.* (…)

[9] Memorandwm Rhif 2, paragraff 7
[10] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 11 a 14

*Nodwyd yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 1 o'r Bil, gan gynnwys cymal 8 [sic][11], yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr. Gan fod gwelliant 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei wneud, neu y gellir ei wneud, gyda chosbau am y tro cyntaf, mae angen LCM Atodol ar gyfer y gwelliant hwn."*

**23.** Ym mharagraff 16 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau nad yw safbwynt Llywodraeth y DU o ran pa ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r broses cydsyniad deddfwriaethol wedi newid ers gosod y Memorandwm.

**24.** Ym mharagraffau 17 i 21 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan fel a ganlyn:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gefnogol i fwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil, a gafodd ei grynhoi yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.*

*Mae'r mwyafrif llethol o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o dan y cymalau ar ddiogelu data, y cymalau ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, y cymalau ar delegyfathrebu a'r cymalau ar gofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai, fel y'u nodwyd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*

*Amlinellodd yr LCM blaenorol bryderon mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau a ganlyn:*

*- Rhan 1, Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau – cymalau 1-13 ac 18-26;*

*- Rhan 2, Gwasanaethau Gwirio Digidol, cymal 49; a*

*- Rhan 3 - Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1.*

*Mae pryderon yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU, fel y nodir yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.*

[11] Rydym o'r farn y dylai hyn gyfeirio at gymal 10.

*Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn, ar lefel Weinidogol a swyddogol, yn parhau."*

**25.** Daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

*"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym.*

*Er bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r bwriad polisi y tu ôl i'r Bil, mae pryderon o safbwynt cyfansoddiadol o hyd fel yr amlinellir ym mharagraffau 19-20.*

*Rydym yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â Llywodraeth y DU ar lefel Weinidogol a swyddogol ar rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd o fewn y Bil ar y materion hyn.*

*Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl rhagor o drafod gyda Llywodraeth y DU."*[12]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**26.** Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 24 Mawrth 2025.[13]

**27.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2025.[14]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**28.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

**29.** At hynny, nodwn hefyd fod gwahaniaethau barn yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

---

[12] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 23 i 26
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Mawrth 2025
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 31 Mawrth 2025

**Casgliad 1.** Rydym yn parhau i gytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2, o'r darpariaethau yn y Bil (a diwygiadau i'r darpariaethau hynny) y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**30.** Nodwn ymhellach nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet, unwaith eto, ym Memorandwm Rhif 2, wedi datgan safbwynt Llywodraeth Cymru yn benodol ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad y Senedd i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

## Sylwadau ar Ran 1 o'r Bil – Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau

**31.** Rydym yn nodi bod y gwelliannau a wneir i Ran 1 o'r Bil, sy'n destun Memorandwm Rhif 2, yn ymestyn cwmpas pwy all osod amodau ar gyfer awdurdodi neu gymeradwyo derbyn data cwsmeriaid neu ddata busnes y tu hwnt i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, yn ehangu cwmpas y pwerau presennol i wneud rheoliadau mewn perthynas â chyhoeddi neu gynhyrchu dogfennau, ac yn ychwanegu darpariaeth ychwanegol sy'n rhoi pŵer penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys i wneud darpariaethau gorfodi taledig.

**32.** At hynny, rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn parhau i fod yn gefnogol i'r bwriad polisi y tu ôl i Ran 1 o'r Bil, er gwaethaf y ffaith nad yw'n ymddangos bod pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y pwerau a ddirprwywyd i'r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys EM yn Rhan 1 o'r Bil wedi'u datrys.

**33.** Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y newidiadau penodol i Ran 1 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio, ac i roi manylion am hynt y trafodaethau â Llywodraeth y DU.[15] Mae'n siomedig nad ydym wedi cael unrhyw wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

## Sylwadau ar Ran 2 o'r Bil (Gwasanaethau Dilysu Digidol) ac ar Ran 3 o'r Bil (Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR))

**34.** Rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn parhau i gefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i Rannau 2 a 3 o'r Bil, unwaith eto er gwaethaf y ffaith ei bod yn ymddangos hefyd nad yw pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch nifer o ddarpariaethau yn y Rhannau hyn wedi'u datrys.

**35.** At hynny, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, yn ein hadroddiad cyntaf, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni cyn gynted â phosibl am y newidiadau

[15] Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Argymhelliad 2

penodol i Rannau 2 a 3 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt. Unwaith eto, nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth, ac mae hyn yn siomedig.

**36.** Rydym yn ailbwysleisio ein pryderon a fynegwyd yng nghasgliadau 5 a 6 o'n hadroddiad cyntaf:

> "*Casgliad 5. Nid ydym o'r farn bod y pwerau gwneud rheoliadau newydd a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau newydd ar gyfer y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol yn briodol.*
>
> *Casgliad 6. Mae dirymu is-ddeddfwriaeth y cytunwyd arni gan y Senedd, sef Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, ac estyn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr i Gymru yn amhriodol.*"

## Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

**37.** Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom nodi'r sicrwydd a roddwyd inni gan Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn cydymffurfio â'r Cytundeb Masnach a Cydweithredu rhwng y DU a'r UE (y Cytundeb).

**38.** At hynny, fe wnaethom nodi farn Llywodraeth Cymru y gallai'r Bil ddangos dechrau ymwahanu'r DU â'r gyfundrefn diogelu data sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws yr UE drwy wanhau'r amddiffyniadau a ddarperir gan ddeddfwriaeth y DU.

**39.** Yn ein hadroddiad cyntaf fe wnaethom nodi nad oedd y Memorandwm yn cynnwys asesiad o ryngweithiad y Bil â'r Cytundeb, yn unol ag ymrwymiadau blaenorol Llywodraeth Cymru, a bod hwn wedi'i ddarparu, wedyn, mewn gohebiaeth ar wahân gan Ysgrifennydd y Cabinet. Nid yw Memorandwm Rhif 2 yn cynnwys asesiad wedi'i ddiweddaru o effaith y gwelliannau a wnaed i'r Bil ar y Cytundeb.

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu asesiad wedi'i ddiweddaru o effaith y Bil ar y Cytundeb Masnach a Cydweithredu rhwng y DU a'r UE, gan gadarnhau barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'r gwelliannau sy'n destun Memorandwm Rhif 2 yn addasu ei hasesiad cychwynnol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod asesiad o ran y Cytundeb Masnach a Cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn cael ei gynnwys ym

mhob memoranda ar gyfer y Bil yn y dyfodol, yn unol ag ymrwymiadau blaenorol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'r gwelliannau sy'n destun Memorandwm Rhif 2 yn lleihau neu'n cynyddu'r tebygolrwydd o wahaniaethau rhwng y DU a'r UE ar ddiogelu data.

**40.** Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom ddweud yn ogystal fod ansicrwydd i ba raddau y mae'r materion hyn wedi'u trafod mewn fforymau rhynglywodraethol perthnasol, yn enwedig y Grwpiau Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ac ar fasnach.

**41.** Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro a yw dimensiynau'r Bil o ran cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu trafod mewn fforymau rhynglywodraethol perthnasol, a cheisiwyd crynodeb o'r trafodaethau hynny.[16]

**42.** At hynny, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu i'r Senedd, y broses adnewyddu ar gyfer penderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data.[17] Ar y mater hwn, ar 18 Mawrth 2025, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynnig i ymestyn digonolrwydd data'r DU chwe mis, i 27 Rhagfyr 2025, er mwyn caniatáu amser i'r broses ddeddfwriaethol ar y Bil ddod i ben yn Senedd y DU. Nodwn fod cyhoeddiad y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi fel a ganlyn: "Once the UK's legislative process on the Data Bill introduced in the UK Parliament on 23 October 2024 concludes, the Commission will assess whether the UK continues to provide an adequate level of protection for personal data. If that assessment is positive, the Commission will propose to renew the UK adequacy decisions."[18]

**43.** Fel gyda'r argymhellion eraill yn ein hadroddiad cyntaf, nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhoi unrhyw wybodaeth inni, hyd yn hyn.

## Gwaith rhynglywodraethol a datrys pryderon cyfansoddiadol

**44.** Rydym yn nodi bod swyddogion o lywodraethau Cymru a'r DU wedi parhau i gael cyswllt rheolaidd ar y Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU.

[16] Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Argymhelliad 5
[17] Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Argymhelliad 6
[18] Y Comisiwn Ewropeaidd, Daily News 18 / 03 / 2025, 'Commission proposes to extend adequacy decisions for the UK by six months for free and safe data flows'

**45.** Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad bod yr amser a gymerodd i Lywodraeth Cymru i osod y Memorandwm wedi peri pryder inni na fyddai unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael eu gosod mewn modd amserol. At hynny, fe wnaethom fynegi pryder na fydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael digon o amser i ystyried yn llawn, femorandwm atodol a allai fod yn ofynnol os caiff newidiadau sylweddol eu cynnig neu eu gwneud i'r Bil.[19]

**46.** O'r herwydd, fe wnaethom argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol, a all fod yn ofynnol oherwydd diwygiadau sy'n cael eu cynnig neu eu gwneud i'r Bil yn Senedd y DU, yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl i roi'r cyfle gorau posibl i bwyllgorau'r Senedd ystyried y newidiadau deddfwriaethol gan eu bod yn gymwys i faterion datganoledig.[20]

**47.** Ategwyd yr argymhelliad hwnnw'n rhannol yn sgil yr ansicrwydd ynghylch pam na aethpwyd i'r afael â materion cyfansoddiadol sylweddol, a'u datrys, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU.[21]

**48.** Fel yr amlygwn yn y paragraffau uchod, nid yw'r un o'r pryderon sylweddol a fynegwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn y Memorandwm, neu gennym ni yn ein hadroddiad cyntaf, wedi cael sylw gan y gwelliannau i'r Bil sy'n destun Memorandwm Rhif 2.

**49.** Mae'r Bil wedi cyrraedd ei gyfnod diwygio olaf yn yr ail Dŷ, ac mae'r Senedd ar fin dechrau ar doriad o dair wythnos. Mae Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn cynnig cynnal dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau perthnasol yn y Bil ar 6 Mai[22]; mae'r dyddiad hwn yn syrthio yn ystod ail wythnos y tymor, yn dilyn toriad y Pasg.

**50.** Os cytunir ar welliannau pellach i'r Bil sy'n effeithio ar faterion datganoledig – p'un a yw'r gwelliannau hynny'n mynd i'r afael â'r pryderon sydd eisoes yn hysbys ai peidio – ni fydd gan y Senedd amser na chyfle ystyrlon i gynnal gwaith craffu ar eu heffaith ar ddinasyddion Cymru, na'u priodoldeb iddynt.

**51.** Yn ein hadroddiad diweddar ar Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ddweud ein bod yn pryderu bod rhaglen

[19] Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Casgliad 3
[20] Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Argymhelliad 1
[21] Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Casgliad 4
[22] Senedd Cymru, Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, 25/03/2025

ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi dod yn gamweithredol, a bod hyn yn cael effaith negyddol ar waith craffu'r Senedd ar ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig.[23]

**Casgliad 2.** Rydym yn pryderu bod y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, yn gynyddol ddiffygiol ac annigonol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r argymhellion yn ein Hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), ac i argymhellion 1 i 3 yn yr adroddiad hwn, erbyn 24 Ebrill 2025.

[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)., Mawrth 2025, paragraff 59